# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**The Lodge**

**Dinbych**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

11/10/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# The Lodge

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Mental Health Care (Highfield Park) Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 3 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 11 Medi 2019 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a fydd o bosibl yn defnyddio'r gwasanaeth. |

## Crynodeb


Mae'r bobl yn fodlon ar y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael yn The Lodge.  Roedd yr adborth a gafwyd gan unigolyn yn cynnwys bod y gofal a'r cymorth y mae'n eu cael yn *"excellent", "I like living here because the staff are caring and consider my needs"* ac *"Its a lovely place to live".* Mae'r bobl yn mwynhau gwneud y pethau sydd o ddiddordeb iddynt.

Mae'r cynlluniau yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn cynnwys gwybodaeth fanwl am y ffordd orau o gefnogi'r bobl a chyflawni eu canlyniadau. Mae'r rheolwr a'r staff gofal yn adnabod y bobl yn dda ac yn rhyngweithio mewn ffordd ofalgar â nhw, a chaiff cydberthnasau cadarnhaol eu meithrin sy'n cynnig parhad a sefydlogrwydd.

Mae'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi, a'u bod yn cael hyfforddiant i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau'n effeithiol. Dywedodd y staff gofal wrthym *"It has a friendly atmosphere and is managed well"* ac *"It is a lovely place to work and the people who live here have a good quality of life".* Maent yn cael eu cydnabod am eu gwaith a'u hannog i feithrin eu sgiliau a chamu ymlaen yn eu gyrfaoedd.

Mae'r gwasanaeth yn cael ei arwain a'i reoli'n gadarn. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â The Lodge er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf ac mae'n cefnogi'r rheolwr yn ei rôl. Mae systemau a phrosesau ar waith i nodi gwelliannau i'r gwasanaeth ac i wneud gwelliannau parhaus.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywyd o ddydd i ddydd. Maent yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau am yr hyn y maent am ei wneud bob dydd. Ceir ffocws cryf ar gyfathrebu er mwyn sicrhau bod lleisiau'r bobl yn cael eu clywed a'u bod yn gwneud eu dewisiadau eu hunain. Defnyddir pasbortau a chymhorthion cyfathrebu i annog y bobl i ryngweithio ac i wneud dewisiadau. Cynhelir cyfarfodydd preswylwyr sy'n rhoi cyfle i'r bobl leisio eu barn, codi unrhyw faterion neu awgrymu gwelliannau. Dywedodd gweithiwr proffesiynol fod unigolyn wedi cael ei annog i fod mor annibynnol â phosibl a bod ei allu i gyfleu ei anghenion ei hun wedi gwella.  Dywedodd y staff gofal wrthym fod y bobl yn gwneud yr hyn y maent yn dymuno ei wneud a bod ansawdd eu bywyd yn dda.

Caiff anghenion iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol y bobl eu diwallu. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth fanwl iawn am y ffordd orau o gefnogi'r bobl. Mae hyn yn cynnwys eu hoff bethau, eu cas bethau a'u dewisiadau, yn ogystal â'r bobl a'r pethau sy'n bwysig iddynt. Cofnodir gwiriadau a chyflyrau iechyd, caiff atgyfeiriadau eu gwneud, a rhoddir cymorth i'r bobl fynychu apwyntiadau. Caiff iechyd a llesiant y bobl eu hybu gan staff cymorth sy'n annog ffyrdd iachach o fyw. Caiff canlyniadau cadarnhaol eu cyflawni'n gyson i'r bobl. Mae cynllunwyr cyfleoedd unigol ar waith ar gyfer y bobl, a gallant wneud y pethau y maent yn mwynhau eu gwneud ac y mae ganddynt ddiddordeb ynddynt. Dywedodd un perthynas wrthym fod ei anwylyd yn gwneud yn dda, a'i fod yn cael gwybod am unrhyw newidiadau. Dywedodd gweithiwr proffesiynol wrthym fod un unigolyn wedi *“Developed good therapeutic relationships with their care team”.*

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Caiff asesiadau risg eu cwblhau er mwyn diogelu'r bobl ac eraill. Mae polisi diogelu ar waith ac mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant. Mae'r staff gofal yn ymwybodol o faterion diogelu a'r hyn y dylent gadw llygad amdano a rhoi gwybod amdano, ac maent yn teimlo y gallent godi unrhyw bryderon. Mae gan y bobl gydberthnasau cadarnhaol â'u cydbreswylwyr a'r tîm o staff sy'n rhoi cymorth iddynt. Dywedodd y bobl a'u perthnasau wrthym eu bod yn gallu codi unrhyw bryderon.

Mae'r bobl yn byw mewn llety addas. Mae'r cartref wedi cael ei bersonoli ag eiddo'r bobl ac mae'n adlewyrchu eu diddordebau unigol a'u dewisiadau personol. Maent yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am yr amgylchedd a'r ffordd y caiff ei addurno. Anogir y bobl i fod yn annibynnol ac i feithrin eu sgiliau yn y cartref. Defnyddir symbolau llun mewn ardaloedd gwahanol er mwyn helpu'r bobl i ddod o hyd i'w ffordd o amgylch y cartref. Mae systemau ar waith i fonitro a gwirio'r amgylchedd a'i gadw'n ddiogel.

## Gofal a Chymorth

Mae gan y bobl gynlluniau cywir a chyfredol sy'n nodi sut y dylid rhoi gofal a chymorth iddynt. Mae'r cynlluniau personol yn fanwl ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn, a chaiff ei hoff bethau, ei gas bethau a'i ddewisiadau personol eu cofnodi a'u parchu gan y staff. Ar ddiwrnod yr ymweliad, roedd un unigolyn am i ni edrych ar ei gynllun personol a rhoddodd gopi ohono i ni. Caiff y cynlluniau eu monitro a'u hadolygu, gan gynnwys yr unigolyn ac eraill sy'n ymwneud a'i ofal a'i gymorth. Dywedodd y staff gofal wrthym fod digon o wybodaeth yn y cynlluniau a'r asesiadau risg. Mae'r cymorth a roddir yn gyson, yn cael ei adlewyrchu yn y cofnodion dyddiol, ac yn cyd-fynd â chynlluniau'r bobl. Caiff archwiliadau eu cwblhau, gan gynnwys archwiliadau sy'n ymwneud ag urddas, cyfathrebu, canlyniadau a chynnwys y bobl.

Mae'r bobl yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt gan wasanaeth sy'n ymgynghori â nhw ac yn ystyried eu dymuniadau personol ac unrhyw risgiau. Mae'r bobl yn cael eu cynnwys wrth bennu eu canlyniadau eu hunain, sy'n cael eu monitro, eu hadolygu a'u cyflawni. Rhannodd y rheolwr enghreifftiau lle cafodd canlyniadau eu cyflawni gan ychwanegu gwerth at fywydau'r bobl a'u gwella. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hoffi gwylio'r teledu, mynd i siopa a threulio amser gyda theulu. Mae'r gweithgareddau a gynigir yn cynnwys pêl-fasged, nofio, sesiynau byd natur ar ystlumod, disgo a digwyddiad yn y dafarn leol ar thema Calan Gaeaf. Caiff asesiadau risg a chynlluniau eraill eu cwblhau er mwyn helpu i ddiogelu'r bobl rhag niwed. Dywedodd gweithiwr proffesiynol wrthym *"Overall I am extremely happy with the care provided"*, gan nodi ei fod wedi gweld gwelliant yn yr unigolyn a *"their quality of life is fantastic".*

Mae'r bobl yn cael cymorth i ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd a gwasanaethau eraill. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth am weithwyr proffesiynol gwahanol perthnasol a phryd i gysylltu â nhw. Mae cynlluniau gweithredu iechyd ar waith, a chedwir cofnod o bob apwyntiad a gwiriad a wnaed. Mae pasbortau ysbyty hefyd ar waith ar gyfer pob unigolyn. Dywedodd y rheolwr wrthym am wersi a ddysgwyd, er enghraifft mewn perthynas â meddyginiaeth, sydd wedi gwella arferion yn y cartref. Mae'r bobl yn helpu i siopa am gynhwysion ac i baratoi eu prydau bwyd, gan ddewis bwydydd amgen yn unol â'u dewisiadau, a chânt eu hannog i wneud ymarfer corff er mwyn cynnal eu hiechyd a'u llesiant.

Mae'r gwasanaeth yn hybu arferion hylan ac yn rheoli'r risg o haint. Mae polisi rheoli heintiau ar waith, caiff archwiliadau eu cwblhau, a rhoddir hyfforddiant i'r staff cymorth. Mae cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff yn ôl yr angen.

## Yr Amgylchedd

Mae darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod gofal a chymorth yn cael eu rhoi i'r bobl mewn lleoliad ac amgylchedd addas, sy'n ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw. Dywedodd un perthynas wrthym fod ei anwylyd yn mwynhau cefn gwlad a byd natur, a'i fod yn hapus i ddychwelyd adref ar ôl ymweld ag ef. Mae pob rhan o'r cartref yn lân ac yn daclus. Gwnaed gwaith i adnewyddu'r ystafell ymolchi, ac mae trefniadau ar y gweill i ail-baentio'r cyntedd, y grisiau a'r landin. Mae'r cartref wedi'i addurno'n dda ac yn adlewyrchu chwaeth a diddordebau'r bobl sy'n byw yno. Cynigiodd unigolyn ddangos ei ystafell i ni, sydd wedi'i phersonoli â'i eitemau personol, ei ddodrefn a'i luniau ei hun. Dangosodd hefyd luniau i ni ar ddrysau gwahanol, er mwyn helpu'r bobl i ddod o hyd i'w ffordd o amgylch y cartref. Gall y bobl dreulio amser gyda'i gilydd yn cymdeithasu yn y lolfa a'r ystafell fwyta. Gwneir defnydd creadigol o'r ardal awyr agored, sy'n cynnwys pergola â goleuadau o'i amgylch, ac mae cynlluniau pellach ar waith i godi adeilad synhwyraidd er mwyn creu man tawel ac ymlaciol i'r bobl ei ddefnyddio ar wahân i'r cartref ei hun.

Mae darparwr y gwasanaeth yn nodi ac yn lliniaru risgiau i iechyd a diogelwch. Mae polisïau ar waith a chaiff archwiliadau eu cwblhau, gan gynnwys iechyd a diogelwch a rheoli heintiau. Caiff archwiliadau amgylcheddol hefyd eu cynnal ac mae cynllun cynnal a chadw ar waith. Mae cynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng ar waith er mwyn rhoi gwybod i'r staff sut i gefnogi'r bobl mewn argyfwng. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant i'w cadw eu hunain ac eraill yn ddiogel ac yn iach.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau llywodraethu ar waith er mwyn helpu i redeg y gwasanaeth yn hwylus. Mae'r datganiad o ddiben yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth bob tri mis i gadw golwg ar bethau. Caiff adolygiad o ansawdd y gofal hefyd ei gwblhau bob chwe mis, gan ystyried yr hyn y mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn dda ac unrhyw feysydd i'w gwella. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Caiff y gwasanaeth ei reoli a'i arwain yn dda yn gyson. Mae'r rheolwr yn mynychu cyfarfodydd a gweithgorau â rheolwyr eraill yn y sefydliad er mwyn cynnal trafodaethau, rhannu gwybodaeth, arferion da ac unrhyw wersi a ddysgwyd. Mae cyfleoedd i'r rheolwr ddysgu a rhannu â darparwyr eraill drwy fynychu sesiynau hyfforddi lleol a chenedlaethol. Mae'r rheolwr yn hyrwyddo diwylliant cadarnhaol drwy sicrhau bod y tîm o staff yn cyfathrebu'n effeithiol ac yn meithrin eu sgiliau er mwyn camu ymlaen yn eu gyrfaoedd. Mae'r rheolwr yn dathlu cyflawniadau a chanlyniadau drwy roi gwobrau i'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth a rhoddion diolch bach i'r staff cymorth i gydnabod eu gwaith da. Dywedodd gweithiwr proffesiynol wrthym *“The manager is extremely good at communicating with them and the family”.* Dywedodd y staff wrthym fod The Lodge yn cael ei reoli'n dda.

Caiff y bobl eu cefnogi gan dîm o staff medrus a sefydlog, uchel eu cymhelliant, sydd wedi'u hyfforddi i gyflawni canlyniadau cadarnhaol i'r bobl. Mae ffeiliau'r staff gofal yn cynnwys y wybodaeth sydd ei hangen i'w cyflogi ac mae'r bobl yn cael eu cynnwys yn y broses o recriwtio staff gofal newydd. Pan ofynnwyd i'r staff a oeddent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi, gwnaethant ymateb drwy ddweud *“excellent”,* gan nodi eu bod yn cael cyfleoedd da neu ragorol i ddysgu a datblygu, yn eu barn nhw. Mae'r rheolwr yn edrych am gyfleoedd i ddyrannu gwaith i staff er mwyn meithrin eu sgiliau a'u hyder. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn cael digon o hyfforddiant, a gwelsom dystysgrifau yn ffeil un aelod o staff a oedd yn ymwneud â diwallu anghenion penodol y bobl sy'n byw yno. Cynhelir cyfarfodydd tîm i godi unrhyw faterion a thrafod yr hyn sy'n digwydd yn y gwasanaeth. Dywedodd y staff gofal wrthym fod tîm da yn y gwasanaeth sy'n cydweithio'n dda a bod llawer o gymorth ar gael.

Mae darparwr y gwasanaeth yn goruchwylio'r trefniadau ariannol a'r trefniadau ar gyfer buddsoddi yn y gwasanaeth. Mae tîm cyllid wedi'i sefydlu, caiff cyllidebau eu pennu, caiff cyfarfodydd eu cynnal a chaiff adroddiadau eu llunio er mwyn sicrhau y caiff prosesau eu goruchwylio.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 27/11/2023